LAMPETER TOWN COUNCIL **CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.**

COFNODION CYFARFOD MISOL 28AIN O AWST 2008 AM 6.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawyd yr aelodau i'r Cyfarfod Misol gan y Maer Derek Wilson.

YN BRESENNOL

Y Maer Derek Wilson (Cadeirydd); Dirprwy-Faer Selwyn Walters;
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter; Elsie Dafis; John Davies;
Margaret Davies-Evans; Greg Evans; Lynda Mason-George;
Robert Phillips; Kistiah Ramaya & Dorothy Williams,
Cyng. Sirol a Threfol Robert (Hag) Harris a'r Cyng. Sirol Ifor Williams.
Y Blismones Jo Grey
Mr Mark Dyson; Martin Fitten; Yr Athro D.Austin. (Transition Llambed)

2. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Chris Thomas. Gohebydd y Wasg Carl Stringer.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

Dim.

4. MENTER LLAMBED

Cyn dechrau'r cyfarfod debyniwyd anerchiad gan Yr Athro D.Austin, Mr Martin Fitten a Mr Mark Dyson, cynrychiolwyr o Bwyllgor *Transition Llambed*. Nôd *Transition Llambed* yw lleihau y defnydd lleol o ynni. Clustnodwyd £105,000 o gronfa'r *Undeb Ewropeaidd* at y pwrpas hwn.

Ym Mis Hydref caiff amcanion *Transition Llambed* eu lansio ac ar yr un pryd fe mabwysiadir ei gyfansoddiad newydd. Bydd trafodaethau â thrigolion yr ardal ynglŷn ag arferiadau defnydd ynni'n dilyn, ac fel canlyniad caiff *Cynllun Cwympiad Mewn Egni* ei lunio mewn ymgais i leihau'r defnydd. Yn ogystal ag arbed ynni, bydd y cynllun yn archwilio ffyrdd o gynhyrchu egni gan ddefnyddio gwynt, dŵr a choed. Anogir y ffyrdd hyn o weithredu gan y Llywodraeth ac y mae angen mewnbwm yn lleol.

Rhoddir ystyriaeth i gynhyrchu arian breiniol lleol a cheisio lleihad yn y defyndd o fagiau plastig.

Pleidleisiodd aelodau'r Cyngor Tref yn unfrydol i gefnogi'r fentr ac i gyflwyno llythyr o gymeradwyaeth. Agorir y Cyfarfod Agored yn swyddogol gan y Maer Derek Wilson ar y 16eg o Hydref mewn lleoliad i'w drefnu.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD – 31/07/2008

Cytunwyd eu bod yn gywir arwahân i'r frawddeg olaf ym mharagraff 6.5 parthed Loriau Trwm Hir & Llwythog sy'n defnyddio Stryd-yr-Eglwys a Bryn-yr-Eglwys. Adroddwyd fod ystyr y frawddeg yn anghywir (yn y fersiwn Saesneg yn unig) megis, "He suggested that a sign prohibiting lorries with the words *For Access Only* inscribed on the sign, would deter lorries from travelling up Bryn-yr-Eglwys but would permit the Somerfield lorries to do so*".* **Dylai ddarllen:** ***"***He suggested that a sign prohibiting lorries with the words *For Access Only* inscribed on the sign would deter lorries from travelling up Bryn-yr-Eglwys but would permit the Somerfield *lorries to travel as far as the Somerfield entrance only before turning into the store's car-park*. "

6. PRIF FATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 Cyfethol aelod newydd ar gyfer y Cyngor Tref: Adroddwyd nad oedd un enw wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i ofyn am Etholiad. Nid oedd nifer o gynghorwyr o blaid cyfethol aelod newydd. Penderfynwyd disgwyl yr ymateb

swyddogol gan y Cyngor Sir cyn dod i benderfyniad terfynol. Roedd y cyngor a dderbyniwyd oddi wrth y *Gymdeithas ar gyfer Clercod Llywodraeth Leol* o'r farn y dylid gwneud pob ymderch i lenwi'r sedd gan fod cyfrifoldeb gan y CT i'w hetholwyr i sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n llawn.

6.2 Darpariaeth o Arwyddion newydd ar gyfer y dref: anfonwyd lythyr at y Cyngor Sir yn gofym am ganiatâd i leoli'r arwyddion; ar ôl derbyn caniatâd caiff yr arwyddion eu prynu oddi wrth y *Cwmni Sign of the Times*.

6.3 Problem yn ymwneud â'r Manol ger fynedfa gefn yr Archfarchnad Somerfield: adroddodd rheolwr yr Archfarchnad y bydd y broblem yn cael ei ddatrys yn fuan.

6.4 Loriau Trwm Hir a Llwythog (TH&LL) sy'n teithio ar Stryd yr Eglwys: ymateb oddi wrth y Cyngor Sir yn mynegi, cyn y gellir lleoli arwydd *Mynediad yn Unig* ar gyfer loriau TH&LL sy'n teithio Heol Bryn-yr-Eglwys byddai rhaid ymgymryd â phrosesau ymgynghorol a chyfreithiol angenrheidiol (i gymryd oddeutu 3-5 mis). Bydd y CSC yn trefnu lleoli dyfais cyfrif trafnidiaeth ar yr heol i gasglu data'n ymwneud â LTH&LL a symudiadau eraill, er mwyn taflu gwybodaeth pellach ar y sefyllfa.

6.5 Calor Pentref y Flwyddyn: Byddai Is-bwyllgor yn cyfarfod ar gyfer llunio'r deithlen y beirniaid.

6.6 Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref: cytunwyd i geisio'r arain i atgyweirio'r hysbysfwrdd. Bydd y Cwmni Yswiriant yn cwrdd â'r gost ychwaneg i £250.00.

6.7 Cynllun Hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned(ULLC): bydd y modiwlau ar gael ar ddisg i gychwyn.

6.8 Cymuned ar y Cyd: Meithrin cyd-berthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref; canllawiau terfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru- dosbarthwyd y ddogfen yn ystod y cyfarfod olaf-erfynnid ar aelodau a oedd ym meddiant y llyfryn, i'w drosglwyddo i aelod arall, cyn gynted â phosibl.

6.9 Cynllun Diogelwch a Chymunedol Ceredigion 2008-11: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion: dosbarthwyd y ddogfen yn ystod y cyfarfod olaf (y Cyng. H. Harris – y derbynnydd cyntaf)

6.10 Arwydd "Rhowch Gyfle i Draffig o Gyfeiriad Arall" – ebost oddi wrth y Cyngor Sir o'r 2ail o Awst yn mynegi nad oedd eu penderfyniad i beidio â chaniatau arwydd "Rhowch Gyfle i Draffig o Gyfeiriad Arall" wedi newid (rhesymau wedi eu amlinellu mewn cofnodion cynt) ac eu bod wedi cau pen y mwdwl ynglŷn â r mater.

7. GOHEBIAETH

7.1 Astudiaeth Adfywio Llanbedr PS

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth y Cyngor Sir yn datgan fod Adroddaid *Strategaeth Adfywio ar gyfer Llanbedr PS a'r Cyffiniau* wedi ei gwblhau gan *Ymgynghoriaeth Hyder*. Dywedwyd yn y llythyr fod *Cyngor Ariannu Addysg Uwch yng Nghymru* wedi comisynu adroddaid ar gyfer Prifysgol Llanbedr PS a gallai cynnwys yr adroddiad ddylanwadu ar fwriadau *Hyder*. Cyflwynir adroddiad *Hyder* i Gabinet y Cyngor Sir ym mis Medi. Gobeithir asesu adroddiad y *Cyngor Ariannu Addysg Uwch yng Nghymru* ar yr un pryd.

7.2 Gwahoddiad i gynghorwyr i Agoriad yr Arddangosfa gan Hannah Mason yn dwyn yr enw *Organig Trefol* ar nos Sadwrn 30ain Awst rhwng 6.00-8.00pm, yn Neuadd y Dref.

7.3 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Tai Cantref: Nos lau 18fed o Fedi am 7.00pm – gwahoddiad. Penderfynwyd i gyflwyno ymddiheuriadau ar ran y Cyngor Tref.

7.4 **Dogfen Ymgynghorol**: *Cynigion ar gyfer Datblygu Addysg yng Ngheredigion:* angen ymateb erbyn y 4ydd o Ragfyr. Penderfynwyd i ddosbarthu'r ddogfen o fewn y pwyllgor gan ddechrau â'r Gyng C.Barton.

7.5 **Trwydded Arfaethedig (Proposed Cumulative Impact Area)** Tref Aberystwyth: Penderfynwyd dosbarthu'r ddogfen gan ddechrau gan y Cyng. H.Harris- angen ymateb erbyn y 30ain o Fedi.

7.6 **Dŵr yn casglu y tu allan l'r Orsaf Ambiwlans Llanbedr PS -** derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Mr Paul Williams CSC yn mynegi eu bod yn ystyried gosod gwter yn y man ble gesglir y dŵr.

7.7 **Gohebiaeth oddi wrth Dr Abbas** yn cynnig defnydd o gaeau/tir yr hen ysgol Highmead i gynnal gemau pêl-droed a digwyddiadau megis *Y Ffair Fwyd.* Penderfynwyd diolch iddi am ei chynnig; efallai y gellir ei ystyried yn ystod y dyfodol. (01570 481142 (gartref)); (01570 490166 (Swyddfa)).

7.8 **Cyngor yr Henoed Ceredigion – dosbarthu pecynnau "Cadw'n Gynnes"** mi fyddant yn cael eu dosbarthu ym Mhenmorfa ar y 9fed o Hydref. Y Maer i fynychu'r cyfarfod.

8. CYNLLUNIO

Derbyniwyd 2 dyfarniad fel a ganlyn:

8.1 **Codi estyniad y tu cefn i'r adeilad**, Rhif 4 Teras Glandulais, Llanbedr PS SA48 7HP. Ymgeiswyr: DE & BS Jones, Maes y berllan, Cellan, Llanbedr PS. Rhif y Cais: A080472.

8.2 **Creu mynediad newydd i'r ysgol a maes parcio'r pwll nofio**; Ysgol Gyfun Llanbedr PS. Ymgeisydd CSC. Rhif y Cais: A071312CD.

8.3 **Bu'r Panel Archwilio'r Safleoedd CSC yn cwrdd ar Safle'r Garej Mountwalk,** Mountwalk, Llanbedr PS yn gynharach yn ystod y dydd. Y Bwriad: Dymchwel y garej cyfredol a chodi 3 fflat. Datgelir canlyniad y cyfarfod i aelodau'r Cyngor Tref maes o law.

9. CYLLID

9.1 **INCWM :Ad-daliad TAW** £7,750.61; **Ad-daliad Treth Incwm**: £150.00 gan fod y Clerc wedi cwblhau y ffurflen Treth Incwm Blynyddol ar-lein am y flwyddyn ariannol 2007-08; **Tŷ Bwyta Ling-di-Long** Tâl aelodau £324.00 **TALIADAU:Cyflog y Clerc** £463.95; **Treth Incwm** £86.58; **Gwres /Golau/Costiau Storio**: £20/00 **Tŷ Bwyta Ling-di-Long** Tâl aelodau £324.00

9.2 **Derbyniwyd dystysgrif gan yr Elusen *Ambiwlans Awyr Cymru*** am y cyfraniad diweddar o £50.00.

9.3 **Cafwyd llythyr oddi wrth *Cyngor yr Henoed Ceredigion*** yn diolch am y rhodd o £50.00. Bydd y cyfraniad yn eu galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau sydd eu hangen yn aruthrol ar gyfer pobl hŷn Ceredigion.

9.4 **Derbyniwyd llythyr oddi wrth yr Elusen *Marie Curie*** - Gofal mewn Cancr. Yn ystod y flwyddyn hon yn unig, gobeithir darparu gofal am fwy na 2,000 o bobl yng Nghymru ag effeithiwyd gan gancr.

10. MATERION YN YMWNEUD Â R HEDDLU

10.1 **Adroddodd y Blismones Jo Grey fod Adolygiad ar gyfer yr Ardal Di-Alcohol** Arfaethedig wedi ei gwblhau 3 wythnos yn ôl, ond nid oedd mewn sefyllfa i ddatgelu'r Cyngor Tref canlyniad yr Adolygiad, sydd wedi ei seilio ar feini prawf arbennig. Bydd yr heddlu'n cyflwyno'r Adroddiad ar gyfer ystyriaeth i bwyllgor *Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion* a drefnwyd ar gyfer yr 11eg o Fedi, cyn cyrraedd penderfyniad. Bydd gan y CT yr hawl i wneud apêl os caiff eu cais am y fath Ardal ei wrthod.

10.2 **Soniodd y Blismones Jo Grey am sawl burgleriaeth** yn yr ardal ee Banc Natwest; Siop y Crown Williams ac yn Nhregaron.

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 PALMANTAU

Adroddwyd fod namau ar y palmant – ar y tro i Siop Gwilym Price ac ar y palmant Stryd Sant Thomas sy'n arwain at yr hen feddygfa - i hysbysu'r Cyngor Sir.

11.2 LLWYBRAU CERDDED

11.2.1 Cytunodd y Cyng Carter i glustnodi sylw pellach i'r llwybr cerdded sy'n arwain o'r Eglwys Sant Pedr i'r Ystâd Maesyderi.

11.2.2 Rhaid cyflwyno'r anfonebau parthed y Cynllun Llwybrau Cymunedol CSC erbyn y 1af o Hydref. Dylai'r CT dderbyn 75% o'r £1,000 cymhorthdal ar gyfer clirio a thrwsio llwybrau megis 61/12; 62/7+8; 62/14; 61/20; 61/15; 61/18+14; 61/16+11; 62/11 yn ogystal â llwybr cerdded Coedwig Olwen – gwaredu â changhennau a dail, ymwneud â ffosydd a thrin yr arwyneb. Derbyniwyd gwybodaeth o'r CSC ynghanol Awst yn sôn y dylai mwyafrif y gwaith wedi ei gwblhau erbyn hynny.

11.3 CTCC

11.3.1 Ymweliad â'r Ystafell Reoli

Trefnwyd 2 ymweliad ar gyfer Nos Lun 20fed o Hydref ac ar Nos Iau 23ain o Hydref am 7.30pm.

11.3.2 Partneriaeth Diogelwch a Chymunedol Ceredigion Fforwm CTCC: penderfynwyd enwebu'r Cyng. R.Phillips i gynrychiloi'r CT ac fel aelod o'r Fforwm CTCC dros gyfnod o flwyddyn. Trefnwyd y cyfarfod cyntaf ar gyfer yr 2ail o Hydref.

11.3.3 Adroddiad Misol ar gyfer Gorffennaf CSC: bu yna un cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â lladrad. Addroddwyd fod 2 gamera wedi dioddef problemau'n ystod y mis megis *absenoldeb cyfleuster chwyddo* a *dolen fonitro ddiffygiol.* Cafodd yr anawsterau eu hatgyweirio o fewn dyddiau.

12. U.F.A.

12.1 Dywedoddy Gyng. D.Williams y byddai'n cydymdeithio gyda'r Maer i Landudno ar gyfer *Seremoni Gwobrwyo Cymru yn ei Blodau* ynghanol mis Medi. Derbyniodd Tref Llanbedr PS yr ail safle'n y gystadleuaeth.

12.2 Adroddodd y Cynghorydd Walters ar ran trigolion Heol Llanwnnen fod y bagiau tryloyw ar gyfer ail gylchu'n cael eu casglu ochr yn ochr â'r bagiau duon sbwriel a gresynwyd efallai na chânt eu hail-gylchu. Sicrhawyd aelodau fod y bagiau tryloyw yn cael eu gwahanau oddi wrth y bagiau duon a bod eu cynnwys yn cael eu hailgylchu.

12.3 Datganwyd llongyfarchion i'r Cyng. Greg Evans am gynnig gwasanaeth bostio penigamp.

12.4 Cydymdeimlwyd â'r Gyng. Elsie Dafis ar farwolaeth trist ei thad.

12.5 Diolchodd y Gyng. Margaret Davies-Evans am y rhoddion/cardiau a dderbyniwyd adeg ei salwch yn ddiweddar. Braf oedd ei gweld yn bresennol yn y cyfarfod a'i bod wedi gwneud adferiad llawn.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35pm.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau 25ain o fedi am 7.30pm.

DALIER SYLW:

Ni ystyriwyd nifer o faterion a oedd yn codi yn ystod y cyfarfod hwn oherwydd prinder amser, gan fod trefniadau wedi eu gwneud i fynychu cinio arbennig ar gyfer y gyn.Gyng. Hazel Davies i ddechrau am 8.00pm.
I Gynnwys:

1. Gweithgaredd Codi Arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010;
2. Ymholiad Côd Post – Mr Picton Jones;
3. Cynllun Cadwch Cymru'n Daclus (Cyng. C.Thomas)
4. Ymholiad S.Davies ar gyfer trefniant torri gwair- cae yr hen ysgol gynradd;
5. Cyflwyniad o bosibl: Tai Ceredigion: Cyng H.Harris.